**Mick Antoniw AS/MS**

**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: CG/PO/387/2023

Alun Davies AS

Cadeirydd Dros Dro y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

16 Tachwedd 2023

Annwyl Alun,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 31 Hydref 2023, a oedd yn cynnwys nifer o gwestiynau dilynol yn ymwneud â fy mhresenoldeb yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 16 Hydref 2023, fel rhan o'ch ystyriaeth o Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau).

Cewch hyd i fy atebion i'r cwestiynau hyn mewn atodiad i'r llythyr hwn.

Yn gywir,

**Mick Antoniw AS/MS**

Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

## Adran 5 – Cynyddu nifer y Gweinidogion

**Cwestiwn 1: Mae adran 5 o'r Bil yn caniatáu ar gyfer cynyddu, drwy reoliadau, yr uchafswm terfynol o Weinidogion Cymru o 17 i 18 neu 19. Pam y cynigir pŵer gwneud rheoliadau, a pham na fyddai Bil newydd yn fwy priodol o safbwynt cyfansoddiadol?**

Penderfynodd Llywodraeth Cymru gynyddu nifer Gweinidogion Cymru yn sgil argymhelliad gan Bwyllgor Busnes y Senedd yn ei adroddiad ym mis Rhagfyr 2022.

Daeth y Pwyllgor Busnes i'r casgliad, yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, ei bod yn:

> *"[...] rhesymol i'r ddeddfwriaeth gynnwys mecanwaith a fyddai'n galluogi Llywodraeth Cymru i gynnig cynyddu'r terfyn hwn ymhellach i uchafswm o 19 drwy is-ddeddfwriaeth, er mwyn diogelu'r ddeddfwriaeth ar gyfer datganoli rhagor o bwerau yn y dyfodol, neu amgylchiadau eraill lle'r ystyrir bod cynnydd yn deilwng. Dylai cynnydd o'r fath fod yn destun pleidlais gadarnhaol (mwyafrif) yn y Senedd."*[1]

Felly, bwriad y pŵer dirprwyedig yn adran 5 yw cynnwys elfen o ddiogelwch at y dyfodol, gan ganiatáu rhywfaint o hyblygrwydd i Weinidogion Cymru gynyddu ymhellach, drwy reoliadau, y terfyn uchaf ar nifer y Gweinidogion sy'n gallu dal swydd ar unrhyw adeg (hyd at uchafswm o 19 o Weinidogion). Mae'r Bil yn mynd ati'n fanwl i nodi cwmpas y pŵer dirprwyedig hwn.

Fel y nodir yn y Datganiad o Fwriad y Polisi, nid oes disgwyliad ar Lywodraeth Cymru i ddefnyddio'r pŵer hwn ar unwaith i gynyddu'r uchafswm o 17 a fyddai'n cael ei sefydlu gan y Bil. Byddai'n angenrheidiol i Lywodraeth Cymru yn y dyfodol gyfiawnhau pam fod amgylchiadau'n golygu bod angen cynyddu'r terfyn ar nifer Gweinidogion Cymru y tu hwnt i 17. Fel y dywedodd y Pwyllgor Busnes, gallai hyn fod o ganlyniad i ddatganoli rhagor o bwerau, neu amgylchiadau eraill lle'r ystyrir bod cynnydd yn deilwng.

**Cwestiwn 2: Pam nad oes pŵer i ostwng yr uchafswm terfynol drwy reoliadau yn y dyfodol ar ôl i'r pŵer gael ei ddefnyddio? Oherwydd hyn ni fyddai'n bosibl, er enghraifft, gynyddu'r terfyn dros dro at ddibenion penodol – fel Gweinidog penodol ar gyfer argyfyngau penodol (e.e. Covid), neu ddigwyddiadau mawr (e.e. Gemau'r Gymanwlad).**

Yn ei adroddiad ym mis Rhagfyr 2022, dywedodd Pwyllgor Busnes y Senedd ar y mater hwn y dylai "unrhyw gynnydd arfaethedig, ar ôl cytuno arno gan y Senedd, fod yn barhaol."[2] Mae'r Bil yn adlewyrchu'r casgliad y daethpwyd iddo.

---

[1] Y Pwyllgor Busnes, Ymateb i adroddiad y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd – Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru, Casgliad 1, https://senedd.cymru/media/vk4jvvcc/cr-ld15530-w.pdf

[2] Y Pwyllgor Busnes, Ymateb i adroddiad y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd – Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru, Paragraff 16. https://senedd.cymru/media/vk4jvvcc/cr-ld15530-w.pdf

Gellir nodi hefyd fod y pŵer yn darparu ar gyfer cynyddu'r terfyn uchaf ar nifer Gweinidogion Cymru, ac nid y terfyn isaf. O ganlyniad, yn ymarferol byddai Prif Weinidog yn rhydd i ddewis peidio â phenodi i'r terfyn uchaf hwnnw, heb fod angen deddfwriaeth bellach.

**Cwestiwn 3: Pa ystyriaeth a roddwyd i wneud y pŵer yn adran 5 yn ddarostyngedig i weithdrefn a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol bod uwch-fwyafrif o Aelodau yn pleidleisio o'i blaid?**

Yn ei adroddiad ym mis Rhagfyr 2022, dywedodd Pwyllgor Busnes y Senedd:

> *"Mae mwyafrif ein haelodaeth o'r farn y dylai pleidlais o'r fath gael ei phasio ar fwyafrif syml, ond dywedodd Darren Millar y dylai fod angen cefnogaeth dwy ran o dair yr Aelodau sy'n pleidleisio."*[3]

Gan y byddai angen i (uwchfwyafrif) o'r Senedd gytuno ar yr egwyddor y dylid cynyddu uchafswm y Gweinidogion i 17 ac y gellir ei gynyddu ymhellach o fewn ystod gyfyngedig, ystyriwyd ei bod yn gymesur y dylai unrhyw reoliadau a wneir o dan y pŵer hwn fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol, yn unol â chasgliad y Pwyllgor Busnes.

Bydd y weithdrefn gadarnhaol yn sicrhau bod gan y Senedd rôl wrth gymeradwyo unrhyw gynnydd ym maint y llywodraeth ac mae'n adlewyrchu'r ffaith y bydd unrhyw reoliadau sy'n newid y terfyn uchaf ar faint y llywodraeth yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol.

**<u>Adran 7 – Rhannu swyddi</u>**

**Cwestiwn 4: Yn eich barn chi, a fyddai adran 7 o'r Bil yn ddiangen pe bai Llywodraeth newydd Cymru yn cyhoeddi datganiad ar rannu swyddi, er enghraifft, ym mlwyddyn gyntaf y Seithfed Senedd?**

Byddai adran 7 yn parhau mewn grym hyd yn oed pe bai Llywodraeth newydd Cymru yn cyhoeddi datganiad. Y cam allweddol o ran bodloni adran 7 yw bod y Llywydd yn cyflwyno'r cynnig. Yna, mater i'r Senedd fyddai penderfynu a ddylid cytuno ar y cynnig, yng ngoleuni unrhyw ddatganiad o'r fath. Nid yw'r ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyflwyno datganiad yn adran 7(5) ond yn cael ei sbarduno os sefydlir y pwyllgor, a bod y pwyllgor hwnnw'n gosod ei adroddiad gerbron y Senedd.

**Cwestiwn 5: Pam na fyddai Llywodraeth newydd Cymru yn rhwym i gymryd unrhyw gamau mewn perthynas ag argymhellion Pwyllgor a sefydlwyd o dan adran 7?**

Byddai Llywodraeth Cymru, fel sy'n arfer sefydledig, yn ymateb i adroddiadau ac argymhellion pwyllgorau sy'n cael eu cyfeirio ati. Nid yw'r Bil yn gorfodi llywodraeth y dydd i dderbyn argymhellion pwyllgor a sefydlwyd i adolygu'r trefniadau rhannu swyddi.

---

[3] Y Pwyllgor Busnes, Ymateb i adroddiad y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd – Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru, Paragraff 16. https://senedd.cymru/media/vk4jvvcc/cr-ld15530-w.pdf

Yn hytrach, mae'r Bil yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i osod datganiad mewn ymateb i adroddiad pwyllgor o'r fath. Byddai natur yr ymateb, gan gynnwys unrhyw gamau i'w cymryd gan y llywodraeth, yn dibynnu ar yr argymhellion a wneir gan unrhyw bwyllgor. Mae'r ddarpariaeth yn cynnig dull gweithredu sy'n dilyn y model gwaith a arweiniodd at Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), lle ystyriodd un o bwyllgorau'r Senedd y mater cyn gwneud argymhellion a gafodd eu gweithredu wedyn gan y llywodraeth.

**Cwestiwn 6: Pam nad oes darpariaeth yn y Bil i'w gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru yn y dyfodol gyhoeddi Bil drafft yn ymwneud â rhannu swyddi ac ymgynghori arno?**

Byddai gwneud hynny yn gynamserol ac yn achub y blaen ar ganlyniad gwaith pwyllgor. Mae'n bosibl na all pwyllgor wneud argymhellion y gellir eu gweithredu drwy ddeddfwriaeth, ac felly ni fyddai'n briodol ei gwneud yn ofynnol i lywodraeth yn y dyfodol gymryd cam o'r fath ar hyn o bryd.

**<u>Adran 19 – darpariaethau adolygu</u>**

**Cwestiwn 7: A allwch egluro pam y mae adran 19 yn ei gwneud yn ofynnol i bwyllgor newydd gael ei sefydlu, pan allai pwyllgor a sefydlir ar ddechrau'r Seithfed Senedd fod mewn sefyllfa well i ymgymryd â'r gwaith hwnnw (pe bai am wneud hynny)?**

Ni fyddai adran 19 yn atal y Senedd rhag penderfynu cynnwys y gwaith hwn o fewn cylch gwaith ehangach pwyllgor a sefydlir ar ddechrau'r Seithfed Senedd. Byddai'r amserlen ar gyfer cyflwyno'r cynnig yn caniatáu i'r Llywydd, ar y cyd â'r Pwyllgor Busnes, ystyried opsiynau mewn perthynas â sefydlu strwythur ehangach ar gyfer pwyllgorau ar ddechrau tymor y Senedd pan sefydlir pob pwyllgor ar gyfer y tymor hwnnw. Os ystyrir ei bod yn briodol i bwyllgor sefydledig gynnal yr adolygiad, mae croeso i unrhyw Aelod gyflwyno gwelliant i'r cynnig i'r perwyl hwn yn unol â Rheol Sefydlog 12.22.

**Cwestiwn 8: Pa ffactorau y gwnaethoch chi eu hystyried cyn penderfynu bod yn rhaid i'r pwyllgor gwblhau'r adolygiad ddim hwyrach na 12 mis ar ôl cyfarfod cyntaf y Senedd yn dilyn yr etholiad cyffredinol cyntaf a gynhelir ar ôl 6 Ebrill 2026? Pam na fyddai pwyllgor yn gosod ei amserlen ei hun ar gyfer craffu ar ôl deddfu?**

Mae lleihau hyd tymhorau'r Senedd yn cynyddu amlder etholiadau'r Senedd. Os bydd gwersi i'w dysgu yn sgil gweithredu'r Ddeddf ar ôl yr etholiad yn 2026, yna mae'n bwysig bod digon o amser i'r canfyddiadau hynny ac unrhyw ymatebion posibl gael eu hystyried cyn yr etholiad dilynol yn 2030. Unwaith eto, mater i'r Senedd, wrth gwrs, yw penderfynu a oes cefnogaeth i'r cynnig - gan gynnwys yr amserlenni ar gyfer adrodd - ac mae croeso o hyd i unrhyw Aelod gyflwyno gwelliant i'r cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.22.

**<u>Hygyrchedd (gan gynnwys gorgyffwrdd rhwng Biliau diwygio etholiadol)</u>**

**Cwestiwn 9: Mae rhywfaint o orgyffwrdd rhwng y Bil hwn a'r Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru). Er enghraifft, mae'r ddau yn diwygio trefn anghymhwyso y Senedd, ac mae'r ddau yn gwneud darpariaeth ynghylch Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (fel y caiff ei adnabod ar hyn o bryd).**

a. **A allwch chi esbonio pam nad yw darpariaethau sy'n ymwneud ag anghymhwyso yn cael eu cydgrynhoi mewn un Bil?**

Wrth ddatblygu a pharatoi Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), ystyriodd Llywodraeth Cymru, a'i phartneriaid Cytundeb Cydweithio ym Mhlaid Cymru, nifer o bolisïau a oedd yn ymwneud ag argymhellion gwreiddiol y Pwyllgor Diben Arbennig ond nad oeddent eu hunain yn argymhellion penodol y Pwyllgor. Roedd hyn yn cynnwys yr anghymhwysiad mewn perthynas â phreswyliad.

Mae'r darpariaethau anghymhwyso yn y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig yn rhan o becyn o ddiwygiadau yr ymgynghorwyd arnynt fel rhan o bapur gwyn (Ymgynghoriad ar y Papur Gwyn ar weinyddu a diwygio etholiadol). Mae gan ddiwygiadau o'r fath oblygiadau penodol hefyd i Awdurdodau Lleol a Chynghorau Tref a Chymuned. Nid oedd hyn yn cynnwys anghymhwysiad mewn perthynas â phreswyliad.

Yn unol â hynny, ystyriwyd ei bod yn fwy priodol ymdrin â'r anghymwysiadau hyn ar wahân, drwy'r ddau Fil.

Mae'r ddau Fil yn cyflawni eu polisïau unigol drwy ddiwygio'r drefn anghymwyso bresennol yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006. Bydd hyn yn golygu, os bydd y Biliau yn cael eu deddfu, y bydd un drefn anghymhwyso o hyd, gan sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn parhau i fod yn hygyrch.

b. **A allwch chi esbonio pam nad yw darpariaethau sy'n ymwneud â Chomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (fel y caiff ei adnabod ar hyn o bryd) yn cael eu cydgrynhoi mewn un Bil?**

Pan fo gorgyffwrdd eang rhwng y newidiadau sy'n ofynnol i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru o safbwynt llywodraeth leol a diwygio'r Senedd, yna mae'r newidiadau hynny wedi'u cynnwys mewn un Bil - Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau). Mae'r rhain yn cynnwys newidiadau i'r enw (i adlewyrchu cyfrifoldebau newydd) ac uchafswm nifer y Comisiynwyr er enghraifft. Gwnaed hyn er mwyn osgoi gwneud newidiadau i'r un darpariaethau yn agos at ei gilydd.

Fodd bynnag, mae'n briodol bod newidiadau sy'n ymwneud â swyddogaethau penodol ac sy'n addasu'r swyddogaethau hynny (er enghraifft y rhai sy'n ymwneud ag adolygiadau etholiadol llywodraeth leol), yn cael eu gwneud yn y Bil mwyaf perthnasol, gan arwain at ddeddfwriaeth lai a mwy penodol.

Mae'r ddau Fil yn cyflawni eu newidiadau i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru drwy ddiwygio'r fframwaith deddfwriaethol presennol yn Neddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 i'w hailenwi'n Ddeddf Comisiwn Democratiaeth a

Ffiniau Cymru etc. 2013. Bydd hyn yn golygu, os bydd y Biliau yn cael eu deddfu, y bydd y ddeddfwriaeth yn parhau i fod yn hygyrch mewn un Ddeddf.

**Cwestiwn 10: A allwch chi esbonio sut mae'r Bil 'cwotâu rhywedd' sydd ar y gweill yn debygol o ryngweithio â'r Bil hwn, ac i ba raddau y mae'r ddau yn gyd-ddibynnol?**

Mae Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) mewn termau gweithredol yn fewnol gydlynol - nid yw'n ddibynnol ar Fil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol). Bydd y Bil hwn yn cael ei gyflwyno cyn diwedd y flwyddyn, a bryd hynny bydd y Senedd yn craffu arno. Cadeirydd y Bwrdd yw'r Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol.

Gallaf sicrhau'r pwyllgor y rhoddwyd ystyriaeth i'r rhyngweithio a'r rhyngddibyniaethau rhwng y ddau Fil hyn. Er mai mater i Fil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) yw hwn wrth gwrs, ni fwriedir i'r ddeddfwriaeth honno newid unrhyw beth mewn cysylltiad â'r hyn sy'n cael ei gynnig ym Mil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) o ran y trefniadau sylfaenol ar gyfer ethol a chynnal y Senedd, gan gynnwys materion megis hyd rhestrau, dyrannu seddi neu lenwi seddi sy'n digwydd dod yn wag.

**Cwestiwn 11: Mae adran 4 o'r Bil yn darparu ar gyfer ethol Dirprwy Lywydd ychwanegol drwy wneud diwygiadau niferus i adran 25 o Ddeddf Llywodraeth Cymru. Mae'n anodd gweld effaith gyffredinol y diwygiadau ar wyneb y Bil heb gyfeirio at yr Atodlen Ddiwygiadau/Atodlen Keeling yn y Memorandwm Esboniadol. Rydym yn cydnabod na ellid dileu adran 25 o Ddeddf 2006 yn ei chyfanrwydd a rhoi testun newydd yn ei lle am resymau cymhwysedd deddfwriaethol. Fodd bynnag, a allwch egluro pam na aed ati yn y Bil i ddileu'r rhan fwyaf o'r testun yn adran 25 fel ei bod yn darllen yn gliriach, yn hytrach na gwneud nifer o ddiwygiadau ar wahân yn adran 4?**

Yn sylfaenol, dull o ddrafftio oedd hwn, er ei fod hefyd yn adlewyrchu nad yw swyddogaethau a chyfrifoldebau'r Dirprwy Lywydd presennol fel y darperir ar eu cyfer o dan adran 25(1)(b) wedi newid.

Cafodd Atodlen Keeling ei chynnwys yn atodiad 3 i'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Bil er mwyn gwneud y darllen yn haws.

Yn ogystal, fel y cyfeirir ato yn y cwestiwn hwn, ac fel y nodir yng ngohebiaeth y Trefnydd at y Pwyllgor Busnes ar 21 Mehefin (ynghylch cynnig y Pwyllgor y dylid diwygio teitlau'r Llywydd a'r Dirprwy Lywydd), ni all y llywodraeth ddatgan y byddai ganddi hyder llawn y byddai diwygiadau i adran 25(1)(a) – sy'n creu swydd Llywydd ac sy'n nodi sut y cyfeirir at y swydd honno yn Neddf Llywodraeth Cymru – o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

**<u>Ffactorau posibl sy'n effeithio ar weithredu erbyn 2026</u>**

**Cwestiwn 12: Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o'r risg y caiff y Bil ei atgyfeirio i'r Goruchaf Lys gan Dwrnai Cyffredinol y DU?**

Mae'r llywodraeth wedi asesu cymhwysedd deddfwriaethol y darpariaethau yn y Bil yn ofalus, ac rwy'n hyderus bod y Bil hwn o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

**Cwestiwn 13: A allwch chi esbonio canlyniad atgyfeirio i'r Goruchaf Lys ar allu'r Senedd i weithredu'r diwygiadau etholiadol o dan y Bil erbyn etholiad 2026.**

Byddai atgyfeirio'r Bil o dan adran 112 o Ddeddf Llywodraeth Cymru yn golygu y byddai oedi rhwng pasio'r Bil a chael y Cydsyniad Brenhinol gan fod Deddf Llywodraeth Cymru yn gwahardd y Llywydd rhag cyflwyno Bil ar gyfer y Cydsyniad Brenhinol ar unrhyw adeg pan fydd atgyfeiriad yn dal i gael ei ystyried. Pe bai'r Bil yn cael ei atgyfeirio, byddai angen inni ystyried yr holl oblygiadau ar gyfer gweithredu bryd hynny.

Fodd bynnag, fel y nodwyd eisoes, rwy'n hyderus bod y Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

**Cwestiwn 14: A allwch chi esbonio pa ffactorau eraill a allai effeithio ar allu'r Senedd i weithredu'r diwygiadau arfaethedig erbyn etholiad 2026, a sut mae Llywodraeth Cymru wedi lliniaru yn erbyn y risgiau hynny.**

Mae hon yn agenda ddiwygio fawr gydag amserlen uchelgeisiol. Lle bo'n briodol, mae'r Bil yn cynnwys mesurau i sicrhau, cyn belled ag y bo modd, fod y diwygiadau ar waith erbyn 2026. Er enghraifft, bydd Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Cymru yn caffael ei swyddogaethau newydd y diwrnod ar ôl i'r Bil gael y Cydsyniad Brenhinol fel y gall adolygiad 2026 gychwyn bryd hynny. Mae dyddiad cau statudol erbyn pryd y mae rhaid i'r Comisiwn ddarparu ei adroddiad terfynol sy'n nodi ei benderfyniadau ar gyfer adolygiad 2026 ac mae dyletswydd ar Weinidogion Cymru i weithredu'r argymhellion hynny o fewn cyfnod penodol. Mae'r cynllun gweithredu hefyd yn parchu confensiwn Gould, sy'n sicrhau bod gan weinyddwyr etholiadol ddigon o amser i ystyried y newidiadau i ddeddfwriaeth etholiadol.

**<u>Deddfwriaeth yn y dyfodol</u>**

**Cwestiwn 15: A oes gan Lywodraeth Cymru gynlluniau ar gyfer unrhyw ddeddfwriaeth ddiwygio etholiadol bellach ar ôl y Bil 'cwotâu rhywedd' sydd ar y gweill? Os felly, a fyddai'r Cwnsler Cyffredinol yn ymrwymo i gyflwyno deddfwriaeth o'r fath ar ffurf drafft?**

Mae gennym uchelgais i gydgrynhoi'r llyfr statud ar gyfer Cymru lle gallwn, i ddarparu fframwaith deddfwriaethol hygyrch a dwyieithog.

Rydym yn bwriadu cymryd camau i gydgrynhoi'r gyfraith etholiadol yng Nghymru ar gyfer etholiadau datganoledig, fel rhan o'n nod tymor hwy o foderneiddio cyfraith etholiadol.

Yn benodol, mae Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007, ("y Gorchymyn Cynnal Etholiadau") yn nodi'r rheolau manwl ar gyfer cynnal etholiadau i Senedd Cymru. Mae'n nodi'r ffordd i gynnal yr etholiad a'r ymgyrch etholiadol, gan gynnwys darpariaethau ar gyfer herio'r etholiad yn gyfreithiol.

Mae’r Gorchymyn Cynnal Etholiadau wedi cael ei adolygu a’i ddiwygio cyn pob etholiad i’r Senedd. Cafodd ei wneud yn wreiddiol a’i ddiwygio wedyn gan yr Ysgrifennydd Gwladol, cyn i’r swyddogaeth o wneud y Gorchymyn gael ei throsglwyddo i Weinidogion Cymru drwy Ddeddf Cymru 2017. Gan fod y Gorchymyn gwreiddiol wedi’i wneud yn 2007, mae hwn yn gyfle gwerthfawr i ni gydgrynhoi ac ailddatgan y gyfraith fel rhan o fframwaith hygyrch a dwyieithog am y tro cyntaf.

Wrth wneud hynny, byddwn yn ystyried yr egwyddorion sydd wedi’u nodi yn Neddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 ac yn ceisio llunio Gorchymyn sy’n defnyddio iaith fodern a chlir sydd ar gael yn rhwydd i’r darllenydd.

Rwy'n hapus i gadarnhau y byddwn yn ymgynghori ar Orchymyn Cynnal Etholiadau drafft, sydd wedi'i gydgrynhoi ac sy'n ddwyieithog, cyn gwneud y ddeddfwriaeth hon.

Wrth ail-lunio'r Gorchymyn, byddwn yn adlewyrchu'r newidiadau sy'n codi o'r tri Bil, ar yr amod eu bod yn cael y Cydsyniad Brenhinol, i sicrhau bod gennym, yn y pen draw, fframwaith wedi'i gydgrynhoi sy'n ddwyieithog ac yn hygyrch.